

Trefn Terfynu Astudiaethau

Trefn 06 : 2015 Fersiwn 01

Yn Weithredol o 1 Ebrill 2015



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

1. Mae'r weithdrefn hon yn berthnasol i fyfyrwyr ar raglenni hyfforddedig israddedig ac ôl-raddedig ac i fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig. Nid yw'r weithdrefn hon yn berthnasol i:
 - Achosion disgyblu neu ymarfer annheg. Rhaid i achosion o'r fath gael eu hystyried yn unol â Threfniadau Disgyblu neu Drefniadau Ymarfer Annheg y Brifysgol.
 - Myfyrwyr sydd mewn dyled. Rhaid i achosion o'r fath gael eu hystyried yn unol â Threfniadau'r Brifysgol ar gyfer deilio â dyledwyr.
 - Myfyrwyr y gellir terfynu eu hastudiaethau gan Fyrddau Arholi yn unol â rheoliadau a gweithdrefnau'r Brifysgol.
 - Myfyrwyr y gellir gohirio eu hastudiaethau neu eu terfynu oherwydd salwech.
 - Myfyrwyr y gellir terfynu eu hastudiaethau drwy weithdrefnau penodol a gymeradwywyd fel rhan o'r broses cymeradwyo/dilysu ar gyfer eu cwrs, gan gynnwys amodau a osodwyd gan gyrff proffesiynol neu noddwyr.
2. Lle y bo'n bosib ac yn berthnasol, rhaid i fyfyrwr gael y cyfle i ohirio ei (h)astudiaethau neu i dynnu'n ôl ohonynt yn wirfoddol cyn bwrw ymlaen â'r gweithdrefnau a nodir y Drefn hon.
3. Mae sail dros derfynu astudiaethau myfyriwr yn cynnwys y canlynol:
 - Methu mynychu, dros gyfnod sylweddol, weithgareddau wedi'u trefnu'n ffurfiol (*a ystyriwyd yn briodol ar gyfer y rhaglen astudio*) os nad oedd amgylchiadau lliniarol neu os na chafwyd caniatâd ymlaen llaw i fod yn absennol o'r gweithgareddau hynny.
 - Methu cyflwyno cydrannau sylweddol (*a ystyrir yn briodol ar gyfer y rhaglen astudio*) o waith cwrs neu fynychu profion ac/neu arholiadau.
 - Mewn achos myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig, methu cwblhau, o fewn cyfnod penodol, raglen waith y cytunwyd arno er bodlonrwydd y Pwyllgor Goruchwylio.
 - Methu â chyrraedd y safonau disgwylidig mewn rhai lleoliadau proffesiynol neu'r cwbl ohonynt. Gall y safonau gofynnol fod yn rhai wedi eu diffinio gan y Brifysgol neu gallent fod yn safonau allanol a ddefnyddir ar gyfer myfyrwyr ar gyrsiau sy'n arwain at gymwysterau proffesiynol.
 - Tystiolaeth o ymrwymiad annigonol i waith astudio'r Brifysgol, er enghraifft, anfodlonrwydd i gymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp, seminarau, tiwtorialau a chyflwyniadau.
 - Tystiolaeth fod y gwaith a gyflwynwyd i'w asesu yn is na'r safon trothwy'n gyson, i'r fath raddau na all y myfyriwr osgoi methiant drwy ailasesu.
 - Methu cwrrd â gofynion penodol a nodwyd ar gyfer cwrs neilltuol gan y Brifysgol neu Sefydliad Partner yr oedd myfyrwyr yn ymwybodol ohonynt cyn eu derbyn i'r cwrs.
4. Rhaid i Ysgolion fod â gweithdrefnau wedi eu dogfennu ar gyfer nodi'r myfyrwyr hynny y mae eu cynnydd yn achosi pryder, ac ar gyfer cyfeirio myfyrwyr o'r fath i wasanaethau cefnogi canolog ac Ysgol. Rhaid i Ysgolion hefyd sicrhau fod myfyrwyr yn cael cyfle i drafod eu cynnydd gyda Thiwtor Personol (neu aelod o staff cyfatebol) cyn i'w cynnydd gael ei ystyried yn ffurfiol fel y nodir ym mharagraff 5.
5. Bydd cynnydd myfyriwr yn cael ei ystyried yn y lle cyntaf gan bwyllgorau, neu is-bwyllgorau priodol, yr Ysgol(ion) sydd â chyfrifoldeb dros gwrs y myfyriwr. Rhaid i'r pwyllgorau hyn ystyried yn ofalus yr holl amgylchiadau lliniarol, gan gynnwys unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y myfyriwr, ac unrhyw gamau y gellid eu cymryd i roi cymorth neu gyngor i'r myfyriwr. Rhoddir gwybod i'r myfyrwyr yn ysgrifenedig gan Bennaeth yr Ysgol (neu berson a enwebir ganddo) yr ystyrir eu cynnydd yn anfodddhaol ac

Nodyn: O dan amgylchiadau eithriadol, a gyda chytundeb Cadeirydd Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd, gall cyfrifoldebau a neilltuir i Ysgolion, Penaethiaid Ysgol, Swyddogion Ysgol neu Bwyllgorau Ysgol yn Drefn hon gael eu mabwysiadu gan y Coleg, Pennaeth y Coleg, Swyddogion y Coleg neu Bwyllgorau'r Coleg yn y drefn honno, fel y bo'n briodol.

rhaid rhoi cyfle i'r myfyrwyr i wella eu perfformiad academiaidd. Rhoddir cyfnod penodol i fyfyrwyr, a bydd eu cynnydd yn cael ei ailasesu ar ei ddiwedd. Bydd y cyfnod rhwng y rhybudd ysgrifenedig ac ail-werthuso perfformiad yn cael ei bennu gan yr Ysgol, gan ystyried y gweithgareddau a'r asesiadau sydd wedi eu trefnu a natur y materion a arweiniodd at bryderon ynghylch cynnydd myfyriwr.

6. Pan fo cynnydd anfodddhaol myfyriwr yn effeithio ar y gallu i gwblhau lleoliad proffesiynol (gan gynnwys gwaith ymchwil mewn lleoliad y tu allan i'r Brifysgol), gall yr Ysgol symud y myfyriwr o'r lleoliad tra bydd argymhelliad i derfynu astudiaethau'r myfyriwr yn cael ei ystyried.
7. Dylid argymhell terfynu astudiaethau myfyriwr fel cam olaf yn unig, pan fydd:
 - Pob ymgais ar ran yr Ysgol(ion) i unioni'r sefyllfa wedi methu.
 - Pan fydd y myfyriwr wedi anwybyddu cyngor i ystyried gohirio ei astudiaethau neu i dynnu'n ôl ohonynt.
 - Mae'r myfyriwr wedi methu cydymffurfio ag amodau y cytunodd y ddwy ochr arnynt i geisio datrys y problemau.
8. Rhaid i Bennaeth yr Ysgol yn cyflwyno argymhelliad ysgrifenedig i derfynu astudiaethau myfyriwr, gan gynnwys tystiolaeth i'w gefnogi, i'r Cofrestrydd Academiaidd.
9. Rhaid i'r Cofrestrydd Academiaidd ystyried, mewn trafodaeth â Phennaeth yr Ysgol os oes angen, a oes achos *prima facie* yn bodoli o ran terfynu astudiaethau myfyriwr.
10. Os na ellir sefydlu achos *prima facie*, caniateir i'r myfyriwr barhau gyda'r astudiaethau.
11. Os gellir sefydlu achos *prima facie*, bydd y Cofrestrydd Academiaidd yn:
 - Ysgrifennu at y myfyriwr i roi gwybod fod argymhelliad i derfynu astudiaethau wedi ei dderbyn ac y gelwir Panel Ymchwilio ynghyd i ystyried yr argymhelliad. Yn y cyfamser, cynghorir y myfyriwr i barhau gyda astudiaethau am weddill y tymor neu'r semester, p'run bynnag sydd gyntaf.
 - Pan fydd myfyriwr yn cael ei dynnu'n ôl o leoliad, fel y nodir ym mharagraff 6, bydd y Cofrestrydd Academiaidd yn cynghori'r myfyriwr i barhau gydag elfennau eraill ei waith asesu neu ymchwil am weddill y tymor neu'r semester, p'run bynnag sydd gyntaf.
 - Sefydlu Panel Ymchwilio cyn gynted ag y bo modd cyn dechrau'r tymor neu'r semester nesaf, p'run bynnag sydd gyntaf.
12. Bydd y Panel Ymchwilio yn cael ei gadeirio gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Addysgu a Dysgu) neu berson a enwebir ganddo. Bydd y Panel yn cynnwys:
 - Aelod allanol wedi ei gymeradwyo gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Addysgu a Dysgu).
 - Dau aelod o'r staff academiaidd, y bydd o leiaf un ohonynt yn aelod o'r Senedd, a'r naill na'r llall ohonynt o'r Coleg sydd â chyfrifoldeb dros gwrs y myfyriwr.
 - Y Cofrestrydd Academiaidd (neu berson a enwebir ganddo) fel Ysgrifennydd y Panel.
13. Y Cofrestrydd Academiaidd (neu berson a enwebir ganddo) a fydd yn gyfrifol am gasglu a chrynhai tystiolaeth ar gyfer aelodau'r Panel. Bydd y myfyriwr yn derbyn copi o'r dogfennau a gyflwynir i aelodau'r Panel a rhoddir gwybod iddo am yr hawl i fod â rhywun gyda nhw yn y Panel Ymchwilio fel y nodir ym mharagraff 15.
14. Cyflwynir yr achos dros derfynu astudiaethau myfyriwr i'r Panel Ymchwilio gan Bennaeth yr Ysgol (neu berson a enwebir ganddo) sydd â chyfrifoldeb dros gwrs y myfyriwr.
15. Gall y myfyriwr ddewis person i fod gydag ef/hi yn y Panel Ymchwilio, er enghraifft ffrind, tiwtor personol, cynrychiolydd Undeb y Myfyrwyr neu unrhyw un a gyflogir gan y Brifysgol. Rhaid i fyfyrwyr roi gwybod i'r Cofrestrydd Academiaidd, o fewn 5 diwrnod ar ôl derbyn yr hysbysiad o ddyddiad y cyfarfod, os ydynt yn dymuno bod cynrychiolydd cyfreithiol yn bresennol.
16. Bydd y Panel Ymchwilio yn cael ei gynnal fel a ganlyn, oni bai y nodir yn wahanol oherwydd rhesymau penodol a chyda cytundeb pawb fydd yn rhan ohono.

Fel sesiwn gaeedig

- Bydd aelodau'r Panel yn adolygu prif elfennau'r achos yn ôl crynodeb yr Ysgrifennydd ohono.

Mewn sesiwn agored gyda phawb yn cymryd rhan

- Bydd y Cadeirydd yn esbonio cylch gwaith y Panel a'r penderfyniadau y mae ganddo'r grym i'w gwneud.
- Bydd Pennaeth yr Ysgol yn cyflwyno'r achos dros derfynu astudiaethau'r myfyriwr a bydd â'r hawl i alw tystion ymlaen fel y gwêl orau.
- Bydd y myfyriwr yn cael cyfle i herio unrhyw ddatganiad neu ffaith yng nghyflwyniad Pennaeth yr Ysgol.
- Bydd y myfyriwr yn cael cyfle i gyflwyno unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol i'r achosa chaiff alw tystion.
- Caiff aelodau'r Panel gyfle i holi'r myfyriwr, y Pennaeth Ysgol ac unrhyw dystion.
- Bydd y Pennaeth Ysgol yn cael cyfle i gyflwyno unrhyw sylwadau ychwanegol a/neu gasgliadau.
- Bydd y Myfyriwr yn cael cyfle i gyflwyno unrhyw sylwadau ychwanegol a/neu gasgliadau.
- Rhoddir gwybod i'r myfyriwr y bydd yn derbyn penderfyniad y Panel yn ysgrifenedig gan yr Ysgrifennydd.

Fel sesiwn gaeedig

- Bydd y Panel yn adolygu'r gŵyn ac yn cymeradwyo un o'r canlynol:
 - (i) Na ddylid terfynu astudiaethau/ymchwil y myfyriwr ac y dylid caniatáu i'r myfyriwr barhau gyda'r cwrs/project ymchwil, yn unol â'r amodau y cytunwyd arnynt gyda'r myfyriwr ac a amlinellwyd ym mhenderfyniad y Panel. Os bydd myfyriwr wedi ei dynnu'n ôl o leoliad neu safle lle cynhaliwyd ymchwil, fel y nodwyd ym mharagraff 6, rhaid i'r Panel ystyried a oes lleoliadau eraill, lleoliadau ar gyfer cynnal ymchwil, neu asesiadau gwahanol ar gael cyn cymeradwyo'r penderfyniad hwn.
 - (ii) Y dylai'r myfyriwr gael cyfle i ddewis gohirio astudiaethau yn unol â gweithdrefnau'r Brifysgol o ran gohirio astudiaethau. Mae'r penderfyniad hwn yn briodol mewn achosion sydd ag amgylchiadau lliniarol wedi effeithio ar bresenoldeb a/neu berfformiad y myfyriwr. Mae'r penderfyniad hwn yn briodol hefyd mewn achosion na chafodd y myfyriwr gyfle digonol, ym marn y Panel, a chyn y Panel Ymholi, i ddewis gohirio'r astudiaethau.
 - (iii) Y dylai astudiaethau'r myfyriwr gael eu terfynu gan y Panel (a allai roi grym i'r Cadeirydd weithredu) os yw'r cynnydd yn parhau yn anfodddhaol ar sail canlyniadau'r holl fodiwlau a gwblhawyd yn Semester 1. Mae'r penderfyniad hwn yn briodol yn unig mewn achosion lle gelwir Panel ynghyd cyn bod canlyniadau ar gael o ran modiwlau a gwblhawyd gan fyfyrwr israddedig yn Semester 1. Mae'n rhaid i'r Panel hefyd fod yn ffyddiog y bydd digon o dystiolaeth o'r modiwlau i alluogi'r Cadeirydd i farnu a yw'r cynnydd yn parhau'n anfodddhaol ai peidio.
 - (iv) Y dylid terfynu astudiaethau'r myfyriwr ar ddiwedd y tymor neu'r semester cyfredol, p'run bynnag sydd gyntaf
 - (v) Y dylid terfynu astudiaethau'r myfyriwr yn ddi-oed.
17. Mewn achosion lle mae'r Panel yn cymeradwyo penderfyniad ii, iv, neu v (fel y nodir ym mharagraff 16), gweithredir penderfyniad y Panel yn unol â gweithdrefnau'r Brifysgol ar gyfer gohirio neu derfynu astudiaethau fel y nodir ym mharagraff 18.
18. Bydd ysgrifennydd y Panel yn rhoi gwybod am benderfyniad y Panel yn ysgrifenedig i'r myfyriwr. Bydd y llythyr a anfonir at y myfyriwr yn cynnwys hefyd ddatganiadau sy'n briodol i benderfyniad fel a ganlyn:
- (i) Mewn achosion lle mae'r Panel yn cymeradwyo penderfyniad i, ii neu iii (fel y nodir ym mharagraff 16), datganiad nad yw penderfyniad y Panel, mewn unrhyw ffordd, yn gwarantu y bydd y myfyriwr yn llwyddo mewn asesiadau yn y dyfodol ac y bydd unrhyw benderfyniadau yn y dyfodol o ran symud ymlaen ac/neu ddsbarth gradd yn amodol ar benderfyniad gan fwrdd neu bwyllgor arholi priodol fel y nodir yn y Cod Ymarfer ar gyfer asesu Myfyrywr o ran Cyrsiau Hyfforddedig Israddedig ac Ôl-raddedig.
 - (ii) Mewn achosion lle mae'r Panel yn cymeradwyo penderfyniad ii, datganiad fel y nodir ym mharagraff 18i a datganiad y gweithredir penderfyniad y Panel yn unol â gweithdrefnau'r Brifysgol ar gyfer gohirio astudiaethau. Yn unol â'r gweithdrefnau hyn,

cynghorir y myfyriwr i gysylltu â swyddog penodedig yn y Gofrestrfa Academaidd, o fewn 14 diwrnod ar ôl cael penderfyniad y Panel, i ddewis gohirio astudiaethau'n ffurfiol. Os na fydd y myfyriwr yn cysylltu â'r swyddog penodedig o fewn 14 diwrnod, neu os bydd y myfyriwr yn tynnu'n ôl o'r broses ar unrhyw adeg wedi hynny, cyfeirir y mater at Gadeirydd y Panel i gymeradwy terfynu astudiaethau'r myfyriwr yn ddi-oed.

(iii) Mewn achosion lle mae'r Panel yn cymeradwyo penderfyniad iv neu v, datganiad y gweithredir penderfyniad y Panel yn unol â gweithdrefnau'r Brifysgol ar gyfer gohirio astudiaethau. Yn unol â'r gweithdrefnau hyn, cynghorir y myfyriwr i gysylltu â swyddog penodedig yn y Gofrestrfa Academaidd, o fewn 14 diwrnod ar ôl cael penderfyniad y Panel, i derfynu ei astudiaethau'n ffurfiol. Os na fydd y myfyriwr yn cysylltu â'r swyddog penodedig o fewn 14 diwrnod, bydd y swyddog penodedig yn cymryd camau gweithredol i derfynu astudiaethau'r myfyriwr.

19. Gall myfyriwr apelio yn erbyn penderfyniad Panel Ymholi drwy ysgrifennu at yr Is-Ganghellor o fewn 14 diwrnod ar ôl cael penderfyniad y Panel.
20. Mae penderfyniad yr Is-Ganghellor yn derfynol a gall myfyrywyr sy'n parhau yn anfodlon ar ôl apelio i'r Is-Ganghellor gysylltu â Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol yn unol â'r canllawiau sydd ar gael yn www.oiahe.org.uk.